

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 22 Mehefin 2, 2022 50c.

Geir-iau Argraff

gan Gwennan Evans

Yn y byd sydd ohoni heddiw, mae yna nifer o unigolion sy'n creu argraff.

Boed yn seib ar y cyfryngau cymdeithasol, yn arweinydd byd neu'n rhywun awdurdodol yn ein cymdeithas. Gall yr argraff y mae rhywun yn ei adael arnom fod

yn rhywbeth negyddol neu gadarnhaol; dyw'r argraff ddim wastad yn rhywbeth ry'm ni am ei gofio.

Gadael ôl

Serch hyn, mae'r argraff sy'n cael ei adael arnom am bobol ry'm ni wedi'u cyfarfod neu ddarllen amdanynt yn rhywbeth sydd yn gadael hól parhaol – a hynny'n aml heb i'r person sydd wedi effeithio arnoch wybod hynny. Oedd athro neu athrawes yn eich bywydau chi wedi gadael hól arnoch? Neu aelod o'r teulu, ffrind neu rywun arall y daethoch ar eu traws?

Miss Jones

I fi, dim ond un athrawes sydd wedi gwneud argraff fawr arnaf. Er i mi gael nifer helaeth o athrawon arbennig yn ystod fy addysg, dim ond un sy'n sefyll allan i mi, sef Miss Jones. Miss Jones o'dd un o'm hathrawon cynta i'n yr ysgol fach. Ro'n i'n mynychu ysgol fach yng nghefn gwlad Sir Gâr, felly fe ddysgodd Miss Jones fi trwy gydol fy nghyfnod yn yr adran fabanod, ac ro'n i mor falch pan na'th hi symud gyda ni i'n dysgu yn yr adran iau hefyd. Yr hyn sy'n sefyll allan i fi yw cymaint dwi'n ei gofio o'i gwersi. Sai'n siŵr shwt, ond rwy'n dal i gofio pob pregeth, pob clod,



pob maldodyn bach ges i gyda hi. Fi'n cofio sŵn y chwiban o'dd gyda hi, y myg bach daffodils a'r sbectol sbesial o'dd yn tywyllu'n awtomatig wrth gwrdd â golau llachar. Pob manylyn bach – fi'n dal i'w cofio nhw. Sai'n siŵr shwt o'dd hi'n neud e, ond o'dd ffordd i ga'l gyda Miss Jones trw'r amser, ac ro'n i'n ei hedmygu hi bryd hynny cymaint â dwi'n ei hedmygu hi nawr.

Athro

Athro oedd Iesu yn y bôn hefyd. Treuliodd e dair blynedd yn addysgu'i ddisgyblion er mwyn iddyn nhw fynd mas i'r byd a sefydlu'r Eglwys Fore. Rhannu ei neges am ffordd Dduw a'r cariad diben-draw oedd gan Dduw i'r byd trwy aberth Iesu. Ro'dd rhaid bod gan Iesu ffordd arbennig hefyd a oedd yn creu argraff. Drychwch ar y modd y daeth ei ddisgyblion ato ar amrantiad gan adael eu gwaith a'i ddilyn Ef. Drychwch ar Seimon Pedr, Iago ac Ioan – fe adawon nhw'r rhwydau a'r cychod yn y man er mwyn dilyn Iesu. Ie, Iesu yw mab Duw, ond roedd yn rhaid bod ganddo ffordd arbennig iawn o ddenu'r tyrfaoedd a'i ddilynwyr. Sgan i shwt lais o'dd dag e? Neu shwt gerddediad oedd gyda fe? O'dd e'n ddu, yn wyn, yn Asiaidd? Ond rhaid cofio mai ond deuddeg disgybl oedd gydag Iesu. Deuddeg apostol a oedd yn mynd i gario mlaen gyda'r gwaith o addysgu. Dyw e ddim yn lot fowr wrth feddwl bod angen iddyn nhw ledaenu'r Gair ar draws y byd! Ond y busnes argraff 'ma, dyna oedd yn cyfri. Roedd siŵr o fod ffordd arbennig gyda nhw o gael eu cofio a chael eu hadnabod gan y bobol.

Cristganolog

Felly, gyda chynulleidfaoedd y capeli'n mynd yn llai ar hyn o bryd, beth allwn ni neud? Wel, cadw fynd. Ceisio gwneud argraff. Ni'n ddisgyblion i Iesu. Ni'n dal i ddysgu, ond dyw hynny ddim yn ein stopio rhag lledaenu'r newydd da amdano. Yn enwedig i ni, bobol ifanc,

GOFALAETH GLANNAU OGWR

Cynhelir Cyfarfod Sefydlu

Y Parchg

Dylan Rhys Parry

yn weinidog ar Ofalaeth Glannau Ogwr sef eglwysi cynulleidfaol Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr a'r Tabernacl, Porthcawl.

**Nos Iau, 9 Mehefin am 6yh
yn y Tabernacl, Pen-y-bont.**

Mae'r ddwy eglwys yn estyn croeso cynnes i bob un ohonoch i'r oedfa.

Bydd y cyfarfod hefyd yn fyw ar Zoom. Os am dderbyn y ddolen cysylltwch drwy anfon e-bost i glannauogwr@gmail.com

siaradwch gyda'ch ffrindie. Newch iddyn nhw sylweddoli pwysigrwydd cael Crist yn ganolog yn ein bywyde. Dangos pwysigrwydd rhoi amser i ddarllen y Beibl, mynd i'r capel a darllen *Y Tyst*. Sdim cywilydd mewn cyfadde pwy ni'n caru, a chreu argraff ar y bobol hynny sydd heb glywed am yr anhygoel Iesu Grist.

Sgwn i shwt un fydde Iesu Grist ar y ddaear yn yr oes yma? Sgwn i a fydde cyfrif Facebook gyda fe, neu fydde fe'n cynnal cyfarfodydd Zoom i gysylltu gyda phawb ar draws y byd? Beth y'ch chi'n feddwl?

Mae Gwennan yn ferch ffarm sy'n byw yn ardal Cynwyl Elfed ac yn aelod o gapel Hermon. Mae'n astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn mwynhau canu'r piano. Ffaith ddiddorol am Gwennan yw, er ei bod yn ofn corynod, mae hi'n caru malwod!



Gŵyl yr Ysbryd Glân yn 2022

Dyma ail ran erthygl gan Gwilym Wyn, Caerdydd, yn ein harwain i fyfyrto ar arwyddocâd y Pentecost.

Beth, erbyn hyn, yw ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o weinidogaeth Ysbryd Glân y Crist yn ein plith?

Mae sôn am rai o'r disgyblion cyntaf yn Effesus oedd wedi eu bedyddio ond nad oeddynt wedi deall bod Yr Ysbryd Glân yn bodoli, 'Ni chlywsom hyd yn oed fod yna Ysbryd Glân.' (Actau 19:2,3) Mae'n bosibl bod rhai o ffyddloniaid Iesu yn ein plith yn y Gymru gyfoes nad ydynt hwythau wedi clywed rhyw lawer am y diddanydd roedd Iesu wedi ymateb iddo ac ymddiried ynddo. Yn gymysg ag elfen o anwybodaeth mae o bosib haen sylweddol o amheuaeth am bwysigrwydd berthnasedd swyddogaeth yr Ysbryd Glân, hyd yn oed yn ein heglwysi heddiw.

Dwi'n ofni bod ein bywyd defosiynol yn dlawd iawn ac yn oeraidd os ydym yn anwybyddu a dibrisio dysgeidiaeth ac esiampl Iesu ei hun yn ei berthynas glos a grasol â'r arfogwr nerthol a grymus.

Dylanwadau anysbyrdol

Gallaf ddeall yn iawn fod nifer ohonom yn ansicr ein meddwl pan geisiwn ddeall a dadansoddi posibiladau a photensial ein perthynas ag ysbryd y Crist byw. Mewn oes sydd wedi elwa ar lwyddiant sylweddol a rhyfeddol y rhesymu empiryddol a gwyddonol, mae'n anodd iawn i ni amgyffred a gwerthfawrogi cysyniadau athronyddol ac athrawiaethol sydd y tu allan a thu draw i'r fframwaith gwyddonol rydym wedi ei fabwysiadu, efallai mewn rhai achosion yn ddiarwybod i ni ein hunain.

Cafodd llawer un eu dylanwadu yn drwm gan ddyrniad o wyddonwyr adnabyddus iawn sydd wedi bod yn ymosodol iawn ar grefydd yn gyffredinol. Cawsant groeso brwd ar y cyfryngau, yn arbennig ar y teledu a gwerthwyd miliynau o'u llyfrau oedd yn dibrisio agweddau o grefydd. Daethant yn awduron cyfoethog o ganlyniad i'r pryniant sylweddol iawn gan y cyhoedd ledled y byd.

O fewn naws ac awyrgylch felly, tasg a her sylweddol yw troi ein golygon i



fyfyrto ac ymdrechu i ddeall gwirioneddau a gwerthoedd nad ydynt wedi eu cornelu na'u cyfyngu o fewn egwyddorion caeth a chyfyng ein meddwl gwyddonol cyfoes.

Beth yw ysbrydol? Beth sydd yn ysbrydol? Pwy ohonom sydd yn ysbrydol ein hanian?

Dros y blynyddoedd cwrddais â phobl hyfryd iawn oedd yn datgan yn agored ar ôl iddynt ddeall fy mod wedi fy ordeinio ac yn cael y fraint a'r cyfrifoldeb o arwain gwasanaethau a myfyrdodau mewn capeli ac eglwysi, 'I am not religious, but I am spiritual.' Dwi'n ysbrydol ond dwi ddim yn grefyddol!

Dwi'n bersonol yn hoff iawn o drafod beth yw ystyr hynny gyda phobl onest ac agored eu meddwl sydd yn fodlon trafod eu safbwynt a phrofiadau yn eu bywyd sydd yn rhannol wedi eu tywys i fabwysiadu'r farn honno. Mae nifer o'r rhai canol oed ac uwch wedi bod mewn perthynas â chapel neu eglwys gan amlaf trwy fynychu'r ysgol Sul a rhai ohonynt yn fwy diweddar yn eu bywyd.

Mae'n drist dweud bod gormod ohonynt wedi cael eu siomi a'u ddadrithio yn y capel neu'r eglwys am amryw o resymau ac felly wedi cilio ac ymatal rhag mynychu moddion gras na'r gweithgareddau eraill oedd yn cael eu cynnal ar eu cyfer.

Mae'n ddiddorol iawn i holi yn sensitif beth yw bod yn ysbrydol yn eu tyb nhw? Ymateb sawl un yw dweud nad ydynt yn or-faterol eu gwerthoedd. Bu rhai yn dilyn cyrsiau myfyrio (meditation) dan arweiniad aelod profiadol o'r ffydd Fwddiaidd ac wedi cael budd o hynny.

Dwi'n cael ar ddeall bod meddwlgarwch (mindfulness) yn weithgarwch poblogaidd y dyddiau hyn

mewn nifer o gyd-destunau.

Ysgwn i a oes rhyw awydd a dyhead ymhlith ein cyfoeswyr di-gapel/eglwys i ddarganfod ystyr dyfnach i'n bodolaeth ryfeddol ar y blaned fach ddi-nod hon. A ddylem ymdrechu'n fwy ymroddedig i rannu arwyddocâd a llawenydd dathliad y Sulgwyn hwn gyda hwy?

Er gwybodaeth: Cynhelir encil ar y thema, 'Y gwynt sy'n chwythu lle y mynno.' (Ioan 3:8)

Dydd Sadwrn, Mehefin 18, 2022, yn Eglwys y Santes Fair, Porthaethwy dan nawdd cristnogaeth21.cymru £25 yn cynnwys bwffe. Mae'r Archesgob Andy John ymhlith 7 siaradwr gwadd. Mwy o fanylion gan Catrin Evans (01248) 680858

Emyn 'Ffoadur' gan Sian Meinir

Pan fyddo'r byd yn dywyll
A'm cwch ymhell o'r lan,
Yr eigion oddi tanaf
Yn bygwth, minnau'n wan;
Fe welaf law'n ymestyn,
Yn cynnig imi'n rhydd
Gael gafael yn y gobaith
All adfywhau fy ffydd.

Fe fûm yn ddigyfeiriad,
Heb le ar fôr na thir;
Mor ofnus ac mor unig,
Wrth chwilio am y gwir.
Ond profais gyda'r Iesu
Y wefr o'r nefol ias
Sy'n derbyn pob ffoadur
Yn llawn, â'i wyrthiol ras.

Tra bwyf, fe roddaf ddiolch
Am iddo'm 'nabod i,
Mae'n cofio fyth fy enw
Drwy gariad Calfarî;
Pan welaf druan arall
Yn dod o'r draw-fan-draw,
Fe groesaf innau ato
Ac estyn iddo'm llaw.



Yr Adran Gydenwadol

Y gorau a'r gwaethaf o fyd plant ac ieuentid

Aled Davies sy'n rhannu ei sylwadau o faes Eisteddfod yr Urdd tra'n dathlu doniau ieuentid Cymru ond ar yr un pryd yn ein hatgoffa o gymhlethdod tyfu i fyny heddiw ynghanol trais, bwlio a throseddau gynnu.

Erbyn hyn mae Eisteddfod yr Urdd yn ei hanterth, a gwelwyd rhannu doniau arbennig ym maes llên a chân, dawns a cherdd o lwyfannau'r wyl. Ar ôl colli dwy flynedd o steddfota a chwydro'r maes, diolch am gael dathlu unwaith eto fwrlwm ieuentid ein gwlad.

Dechreuwyd yr wythnos gydag oedfa arbennig yng Nghapel Mawr Dinbych, o dan arweiniad plant ac ieuentid y sir. Cafwyd oedfa fendithiol, wrth i ni gael ein tywys ar daith gan mlynedd o gyhoeddi a rhannu neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, ers y neges gyntaf honno gan y Parch. Gwilym Davies yn 1922. Mewn darlenniadau, gweddiâu, caneuon a deialog, fe'n heriwyd i feddwl am le heddwch yn y byd, ac am y neges flynyddol hon gan ieuentid Cymru.

Yn y pnawn braf oedd bod mewn oedfa deuluol wedi ei threfnu gan y Parchedigion Andras Iago a Rhodri Glyn, wrth iddynt groesawu teuluoedd i'r ardal. Gyda dros ugain o blant ifanc yn bresennol, eto roeddem yn gwerthfawrogi bwrlwm a chwilfrydedd y criw hwnnw.

Ar faes y brifwyl mae stondin eang o dan ofal Cytûn, Cyngor yr Ysgolion Sul a Chymorth Cristnogol, gyda chroeso i blant ac oedolion droi i mewn i brofi o letygarwch a gweithgarwch y stondin. Bu ysgolion Sul y fro yn brysur yn paratoi gweithiau celf i'w harddangos, ac yn ystod yr wythnos mae cyfle iddynt eto gyfrannu at broiect celf gan Gymorth Cristnogol a fydd yn cael ei arddangos yn y Gadeirlan ym Mangor maes o law. Bob dydd am 11 o'r gloch o fewn y stondin cynhelir gwasanaeth byr, gan offrymu gweddi heddwch dros drigolion Wcráin a darllen neges Ewyllys Da eleni, sy'n sôn am heriau a phwysigrwydd newid hinsawdd.


Ond, yn anffodus, rhan o'r pictiwr yw'r uchod, a'r realiti yw y gwelir enghreifftiau o drais a chasineb ochr yn ochr â hyn o fewn ein byd. Yn ystod yr wythnos a aeth heibio gwelwyd Raheem Bailey, hogyn ifanc 11 oed o Abertyleri yn colli ei fys wrth ffoi o afael bwllis ar sail camdriniaeth hiliol – a'r plant hynny'n gyfoedion iddo yn yr ysgol. Dywed yr Athro Iwobi o Gyngor Hiliaeth Cymru fod hyn yn rhywbeth hollol gyffredin ac yn ffordd o fyw i lawer o blant o dras ethnig, a hawdd iawn fyddai i'r bachgen yma fod wedi colli ei fywyd.



Daeth y newyddion erchyll hefyd am 19 o blant yn cael eu saethu'n farw mewn ystafell ddosbarth yn Texas, a hynny gan Salvador Ramos, disgybl 18 oed yn ysgol Uwchradd Uvalde yn y dre. Cyflwynwn ein gweddiâu dros y teuluoedd hynny yn eu galar yn dilyn digwyddiad mor ofnadwy. Er bod hwn yn ddigwyddiad unigryw o ran nifer y marwolaethau mewn un digwyddiad, yn anffodus mae nifer y bobl ifanc dan 25 oed sy'n berchen ar wn yn codi'n flynyddol, ac yn 2019 fe fu iddynt eu defnyddio i ladd cyfanswm o 4,200 o blant ledled y wlad. Eto, mae America yn gyndyn iawn i dynhau rheolau perchnogaeth arfau. Hyd nes y gwneir hynny, cynyddu mae'n debyg fydd nifer y llofruddiaethau blynyddol.

Y gorau a'r gwaethaf. Daioni a drygioni ar waith yn y byd. Geiriau Paul yn ei Lythyr at y Rhufeiniaid oedd, 'Trecha di ddrygioni â daioni'. Diolch am bob ymdrech a welir yn ein byd i geisio dangos i blant beth yw gwir ddaioni, a sut i osgoi bywyd o ddrygioni. Diolch am neges flynyddol yr Urdd yn annog byw bywyd mewn heddwch, gan osgoi trais. Bydd llawer o drafod a dadlau ar bwy mae'r cyfrifoldeb i wireddu hynny. Ai'r aelwyd gartref neu'r ysgol? Mewn cyfnod a fu, ym mri'r bwrlwm eglwysig, byddai ysgolion Sul wedi bod yn sylfaen gadarn i werthoedd a moeseg, wrth gyflwyno lesu fel esiampl i'w ddilyn.

Galwad Gwilym Davies yn 1922 oedd ar i ni weddio ar Dduw i ddod â heddwch i'n byd. O gofio am gyflwr bregus ein byd, o hiliaeth Abertyleri i drais gynnu Texas a lladd rhyfelgar yn Wcráin, mae ei gri yn fwy ingol heddiw nag erioed. Gweddiwn ninnau gydag arddeliad, er mwyn gweld holl blant ein byd yn ffynnu ac yn cyrraedd eu llawn potensial mewn bywyd, fel dinasyddion cyflawn, llawn daioni. Gweddiwn ar i Dduw wireddu hynny.




Dirgelwch Duw

'The opacity of God unites them briefly before His clarities again divide.'

Daw'r frawddeg uchod o nofel gan awdur o Dde Affrica, Damon Galgut. Teitl y nofel yw [The Promise](#), enillydd gwobr Booker am 2021, ac mae'r stori'n troi o amgylch teulu cynhennus, rhanedig, sy'n dadlau'n ffyrnig ymysg ei gilydd yn barhaus. Un o'r pynciau llosg sy'n eu gyrru ar wahân yw crefydd, a cheir yn y nofel densiwn rhwng Pabyddiaeth, Eglwys Ddiwygiedig yr Iseldiroedd (Dutch Reformed Church), y mudiad Pentecostaidd, ac Iddewiaeth. Cefndir y frawddeg a ddyfynnir yw angladd teuluol sy'n digwydd mewn eglwys babyddol. Daw'r teulu ynghyd ar achlysur digon trist, ac am ychydig mae'r awyrgylch o fewn yr eglwys – y defodau gyda'r delwau, y blodau, y gerddoriaeth, yr aroglarthu a'r ymadroddion Lladin – yn peri iddynt oll blygu'n dawel a chytûn gerbron mawredd a sancteiddrwydd Duw. Ond ar ôl y gwasanaeth mae'r hen raniadau a'r ffraeo'n codi i'r wyneb eto.

Wrth gnoi cil dros eiriau Galgut, daeth i'm meddwl mai dyna hanes Cristnogion ar hyd y canrifoedd. Cyn belled â'n bod yn cydnabod Duw yn ei fawredd, a'i hanfod y tu hwnt i'r meddwl dynol, gallwn blygu'n ostyngedig o'i flaen gyda'n gilydd: 'The opacity of God unites them.' Wedi'r cwbl, sut allwn ni osod ein llinyn mesur ar Dduw, gyda'n meddyliau meidrol? Rhybuddiodd Paul ni mai 'gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur'. Yn Llyfr Emynau'r Methodistiaid (1927), ceir emyn gan Robert Davies, Bardd Nantglyn, sy'n cynnwys y cwpled: 'O flaen dy fainc a'th orsedd di, / gweddi a mawl sy'n gweddu i mi.'

Ond cyn gynted ag yr awn ati i geisio deall Duw, ei ddiffinio a'i ddadansoddi, mae ffydd yn troi'n rhywbeth arall. Rhyfgy ar ein



rhan yw hynny, a dyna sy'n ein gyrru oddi wrth ein gilydd: 'His clarities again divide'.

Gosododd y cyn-Archesgob Richard Holloway ei fys ar y mater pan ddywedodd, 'The opposite of faith is not doubt, but certainty.' Buan iawn yn hanes yr eglwys Gristnogol, yn dilyn cyfnod y Testament Newydd, trodd pendantrwydd yn ddogma, a natur dogma yw gosod ffiniau, a chau allan. Pan luniwyd y credoau cynnar, y bwriad oedd nid yn gymaint gosod i lawr mewn geiriau yr hyn na ellir ei ddiffinio, ond yn hytrach dweud, 'Dyw hyn ddim yn iawn', neu 'All hynny ddim bod yn gywir'. Ond maes o law cafodd y datganiadau hynny eu ffurfioli a'u caledu nes iddynt droi'n foddion i gau allan ac ymrannu.

Yn ei chofiant gwych, diweddar i'r offeiriad a'r bardd Saesneg John Donne, mae [Katherine Rundell](#) yn crynhoi sylwadau Donne mewn pregeth o'i eiddo pan oedd yn Ddeon Eglwys Gadeiriol Sant Paul yn Llundain: 'Division is absurd

and destructive, and very little that is destructive is of God.' Ond o fewn Eglwys Iesu Grist mae canlyniadau'r duedd oesol i ymrannu'n aros gyda ni hyd heddiw.

Sut, felly, y mae inni adnabod Duw o gwbl? Mae'r ateb yn glir yn yr Efengylau, sef trwy Iesu Grist yn unig. Pan ofynnodd Philip i Iesu am gael gweld y Tad, yr ateb a gafodd oedd, 'Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad'. Does yna ddim mwy; mae'r cwbl o Dduw yn Iesu. Wrth edrych ar Iesu, gwranddo ar Iesu a chanlyn Iesu y mae i ni adnabod Duw. Am y gweddill, roedd Saunders Lewis yn llygad ei le: 'Mor ddigri yw datganiadau goruchaf ein ffydd'.

Ac yn ei ffordd ddihafal ei hun mae Aled Jones Williams yn ategu hynny:

A ninnau o hyd
yn petalu'r Distawrwydd
a mynnu
mai hwn
yw'r

Rhosyn.

Na, nid geiriau ond gweithredoedd sy'n newid pethau. 'Nid pawb sy'n dweud wrthyf, "Arglwydd, Arglwydd", fydd yn mynd i mewn i deyrnas nefoedd, ond y sawl sy'n gwneud ewyllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd', medd Iesu. Ar ôl ein rhybuddio mai 'gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur', mae Paul yn datgan mai cariad, uwchlaw popeth arall, sy'n aros.

A throi'n ôl at nofel Galgut, mae yna un cymeriad sydd wedi deall hynny, sef y ferch ieuengaf, Amor. Nid damwain ydyw bod ei henw'n golygu 'cariad', oherwydd mae hi'n troi ei chefn ar gwerylon a rhaniadau'r teulu ac yn ymgolli mewn bywyd o wasanaeth i eraill, o garu a gweini.

Glyn Tudwal Jones
Caerdydd

Cyflwyno Beiblau

Braint eglwysi a chapeli Cymraeg Caerfyrddin bob blwyddyn yw cyflwyno Beibl i bob disgybl ym Mlwyddyn 5 yn Ysgol Gynradd Gymraeg y Dderwen. Oherwydd y cyfnod clo, cyflwynwyd copi yr un i Flwyddyn 6 hefyd eleni. Credwn fod hwn yn fuddsoddiad ac yn genhadaeth bwysig yn ein tref. Hir y parhaed yr arfer ardderchog hwn.

Llun: Y Parch. Beti Wyn James yn cyflwyno'r Beiblau ar ran eglwysi a chapeli Cymraeg Caerfyrddin



O'r Beibl: 2

Sut un yw Iesu?

Darllen: Colosiaid 1:15-20

Ar ddechrau cyfres newydd, rhywbeth pwysig yw atgoffa ein hunain pwy yw Iesu. Wedi'r cyfan, mae ein calonnau'n anghofus ac yn orlog. Gallwn gollu golwg yn rhwydd ar sut un yw ein Harglwydd a'n Gwaredwr. Gan mai ei garu a'i fwynhau ef yw pwrpas ein bywydau, mae'n hollbwysig cofio sut un ydyw.

Ysgrifennodd yr Apostol Paul ei lythyr at y Colosiaid i'w hatgoffa pwy yw'r Arglwydd Iesu. Yn Colosiaid 1:15-20, mae'n dweud pedwar peth am Iesu:

1. Iesu yw'r Cynrychiolydd

- Yn adnod 15, dywed Paul: 'Hwn yw delw'r Duw anweledig, cyntafanedig yr holl greadigaeth'. Pwrpas 'delw' yw cynrychioli rhywun. Wedi'r cyfan, mae Duw wedi creu'r ddynoliaeth gyfan ar ei 'lun a'i ddelw' (Genesis 1:27) er mwyn iddynt ei gynrychioli ef. Wel, Iesu yw'r ddelw *berffaith*. Fe yw'r un sy'n cynrychioli yn union sut un yw Duw.

Pam mae Iesu'n cynrychioli Duw'n berffaith? Mae'r ateb i'w gael yn adnod 19: 'Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder breswyllo ynddo ef'. Mae Iesu'n cynrychioli Duw'r Tad yn berffaith gan mai ef yw Duw'r Mab. Mae holl gyflawnder y Duwdod yn byw ynddo!

Iesu hefyd yw 'cyntafanedig yr holl greadigaeth'. Nid 'cyntafanedig' yn yr ystyr ei fod wedi ei greu'n gyntaf. Mae Iesu – Ail Berson y Drindod – wedi byw gyda'r Tad ers tragwyddoldeb ac nid yw ef wedi cael ei greu. Na, 'cyntafanedig' yn ôl ei *statws* yw'r hyn sydd ar feddwl Paul. Yn y ganrif gyntaf, y mab cyntafanedig oedd y mab blaenaf: fe oedd yr un oedd â'r hawl i etifeddu tir ac eiddo ei dad. Wel, Iesu yw'r 'cyntafanedig' yn y cosmos; fe yw'r un pwysicaf a'r un blaenaf yn y greadigaeth gyfan.



2. Iesu yw'r Creawdwr

- Mae adnod 16 yn dweud: 'oherwydd ynddo ef y crëwyd pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, pethau gweledig a phethau anweledig, gorseddau, arglwyddiaethau, tywysogaethau ac awdurdodau. Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu.' Mewn geiriau eraill, Iesu yw'r Creawdwr. Trwyddo fe, mae Duw'r Tad wedi creu'r cyfan sy'n bod: pob galaeth, pob seren, pob blodyn, pob pysgodyn, pob atom, pob person, pob angel, popeth.

Nid yn unig mae Iesu wedi creu popeth, mae popeth wedi'i greu *er ei fwyn ef*. Hynny yw, mae popeth sy'n bod – gan ein cynnwys ni – yn bodoli gyda'r pwrpas o ddod â chlod i Iesu.

3. Iesu yw'r Cynhaliwr

- Mae adnod 17 yn egluro mai Iesu yw'r cynhaliwr: 'Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll.'

Iesu yw'r un sy'n cynnal y cosmos. Y rheswm pam mae'r ddaear yn parhau i droi o amgylch yr haul; y rheswm pam mae moleciwlau ein corff yn dal at ei gilydd ydy fod Iesu Grist yn caniatáu i hynny ddigwydd.

4. Iesu yw'r Cymodwr

- Yn olaf, mae Iesu'n gymodwr. Gwelwn hyn yn adnod 18 hyd at ddiwedd y darlleniad: 'Ef hefyd yw pen y corff, sef yr eglwys. Ef yw'r dechrau, y cyntafanedig o blith y meirw, i fod ei hun yn gyntaf ym mhob peth ... [t]rwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd.'

Trwy farw ar y groes mae Iesu'n cymodi pobl ag ef ei hun. Ond pam mae angen inni gael ein cymodi? Wel, mae'r Beibl yn dysgu fod ein pechod a'n gwrthryfel yn golygu ein bod mewn rhyfel yn erbyn Duw. Ond gan fod Duw yn ein caru ni gymaint, bu Iesu farw ar y groes er mwyn talu'r pris am ein pechodau fel bod pawb sy'n credu yn Iesu yn gallu cael maddeuant.

Er bod yr eglwys eisoes yn cydnabod awdurdod Iesu, mae diwrnod yn dod pan fydd Iesu'n sefydlu ei awdurdod dros 'bob peth'. Ar y dydd hwnnw, bydd y greadigaeth gyfan yn cydnabod mai Crist yw'r pen.

Felly, ar ddechrau cyfres newydd, dyma sut un yw Iesu: cynrychiolydd, creawdwr, cynhaliwr a chymodwr. Boed i ni dyfu yn ein cariad a'n mwynhad o'r person rhyfeddol hwn bob dydd.

Gwilym Tudur

I'w trafod:

- A oes golwg digon uchel gennym ar Iesu? A yw'r adnodau hyn yn ein helpu i'w ddirchafu a'i glodfori?
- Os yw Iesu'n cynrychioli Duw yn berffaith, sut y gallwn ni gynrychioli Iesu orau?
- Pa mor bwysig yw cael pwrpas i'n bywydau a gwybod bod popeth wedi ei greu 'er ei fwyn ef'?
- Os mai Iesu yw'r cyntaf yn y greadigaeth, pa mor flaenllaw yw ei le yn ein bywydau ni ein hunain ac ar ein haelwyd etc.?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 5 Mehefin, am 7.30yh (aillardarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Gwirfoddolwyr: clywn hanes un o drychinebau mwyaf arswydus yr RNLI yng Nghymru a chawn gipolwg ar waith gwirfoddolwyr Bad Achub Porth Tywyn.



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 5 Mehefin, am 7:30yb a 2.00yp

Euros Rhys Evans sy'n trafod pwysigrwydd cyfraniad Ieuan Gwyllt i'n traddodiad emynyddol, wrth i ni ddathlu daucanmlwyddiant ei eni.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 5 Mehefin, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Ifor ap Gwilym, Abergele

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

73 munud

Mae'n stori hir, ond digon ydi dweud bod canran sylweddol o gefnogwyr Manchester United yn wrthwynebus i'r Glazers ers i'r teulu hwnnw o'r Unol Daleithiau ddod yn brif berchnogion y clwb yn 2005. Cafwyd y ddiweddaraf o'r mynych brotestiadau yn eu herbyn yn ystod y gêm yn erbyn Brentford nos Lun. Gan fod 17 o flynyddoedd ers y pryniant bu rhai cefnogwyr yn ddiweddar yn dangos eu hanfodlonrwydd trwy gadw draw o'r gemau cartref nes bod y gêm yn 17 munud oed. Ond nos Lun, trefnwyd i filoedd o'r cefnogwyr adael stadiwm Old Trafford 17 munud cyn diwedd y gêm, wedi 73 o funudau o chwarae. Ac er bod eu tîm ar y blaen o 3 gôl i 0 ac yn chwarae'n well nag arfer, cryfied yw teimladau'r cefnogwyr fel bod llawer ohonynt wedi ymadael ar y funud benodedig.



76 munud!

Wrth wyllo'r gêm ar y teledu sylwais ar faner ac arni'r geiriau: 'Walk Out on 73, Glazers Out'. Rhwng difrif a chwarae, meddyliais tybed be wnâi chwifwyr y faner pan ddeuai'r funud fawr. Ac roedd rhaid chwerthin pan welwyd y faner eto â'r cloc yn dangos bod bron i 76 o

funudau wedi mynd erbyn hynny! Yn amlwg, i bobl y faner roedd y mwynhad o weld eu tîm yn chwarae'n dda yn drech na'r ewyllys i brotestio. Wn i ddim a arhoson nhw hyd ddiwedd y gêm ai peidio.

Gwasanaethu

Rhwydd oedd codi baner i alw ar bobl i adael cyn y diwedd, ond anos oedd codi pac ac ymadael eu hunain. Un peth ydi pwysu ar eraill i wneud safiad neu ddatgan barn, ond peth arall ydi gwneud y peth hwnnw ein hunain. Nid un felly yw Iesu Grist, ond yr un sy'n fodlon gwneud popeth y mae'n galw'i ddilynwyr i'w wneud. Yr enghraifft amlycaf ohono'n gwneud hynny yn yr efengylau yw'r hanes amdano'n golchi traed y disgyblion yn ystod y Swper Olaf. Galwad i ni wasanaethu ein gilydd ac eraill yw galwad Iesu Grist, ond mae'r weithred hon yn dangos nad yw'n galw ar neb i wneud unrhyw beth nad yw ef ei hun yn fodlon ei wneud. Doedd yr un o'r disgyblion wedi estyn y badell o ddŵr i olchi traed ei gilydd, ond dyna a wnaeth Iesu. Ac meddai, 'Yr wyf wedi rhoi esiampl i chi; yr ydych chiwthau i wneud fel yr wyf fi wedi ei wneud i chi.' (Ioan 13:15)

Calfari

Penllanw ei wasanaeth oedd ei aberth ar Galfaria wrth iddo'i roi ei hun i farw yn ein lle. 'Oherwydd Mab y Dyn, yntau, ni ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.' (Marc 10:45) Ac os oedd Iesu, oherwydd ei gariad atom, yn barod i wneud hynny, ni ddylai unrhyw beth fod yn ormod i ni ei wneud drosto a thros ein gilydd ac eraill. Ond haws dweud na gwneud yn aml gan mor rhwydd yw i ninnau ymdebygu i bobl y faner a bod yn feistriaid ar ddweud wrth

eraill beth i'w wneud a sut i fyw'r bywyd Cristnogol, ac eto fod yn gwbl ddiffygiol yn yr union bethau hynny ein hunain. Ceisiwn bob dydd y nerth i wasanaethu fel y gwnaeth Iesu ac fel y mae Iesu yn galw arnom i'w wneud.

John Pritchard

(Allan o *Gronyn*, cylchgrawn eglwysig gofalaeth y Llechen Las, 8 Mai 2022)

Pererindod Gofalaeth Bröydd Myrddin i Bencader ac Ogorf Cwmhwpln, ddydd Sul, 26 Mehefin

Byddwn yn cyfarfod yng nghapel yr Annibynwyr ym Mhencader am 11 y bore ar gyfer yr oedfa. Byddwn yn rhoi sylw i weinidogaeth Stephen Hughes 'Apostol Sir Gaerfyrddin' ar achlysur dathlu 400 mlwyddiant ei eni, gan roi sylw i ramant ogof Cwmhwpln yn ystod ei weinidogaeth adeg yr erledigaeth ar Ymneilltuwyr yn yr 17fed ganrif. Stephen Hughes oedd yn gyfrifol am gynnull a sefydlu llawer o'r cynulleidfaoedd a'r achosion cynharaf ymhlith yr Annibynwyr yn Sir Gâr, gan gynnwys Pant-teg yng ngofalaeth Bröydd Myrddin. Fe wnaeth gyhoeddi *Canwyll y Cymry* sef cerddi enwog y Ficer Prichard, Llanymddyfri, a'r clasur *Taith y Pererin* o waith John Bynan.

Byddwn yn cael lluniaeth yn y festri wedi'r oedfa. Pawb i ddod gyda'i becyn bwyd, ac fe fydd aelodau Pencader yn darparu paned. Yna, tua 1.00 o'r gloch cawn ymlwybro yn ein ceir ychydig yn nes at ogof Cwmhwpln. Cawn barcio mewn man cyfleus, ond bydd angen cerdded y rhan olaf o'r daith. Bydd modd darparu cludiant i'r sawl na fydd yn medru cerdded y llwybr tua'r ogof. Cawn oedfa a defosiwn byr yn y lleoliad. Wedyn byddwn yn galw nôl mewn tafarn lleol am swper cynnar.

Bydd mwy o fanylion i ddilyn, ond bydd angen i'r sawl sydd yn ymuno ar gyfer y swper roi eu henwau ymlaen llaw, fel bod y dafarn yn gwybod faint i ddisgwyl ac i ddarparu ar eu cyfer. Enwau i Arthur Morgan: 01267 221594 arthurmorgan@hotmail.co.uk neu Emyr Gwyn Evans 01269 831083 emyrgwyn@btinternet.com

Gobeithio bydd yr haul yn gwenu arnom ar y diwrnod, a bydd croeso i bwy bynnag sydd am ymuno gyda ni am y diwrnod cyfan, neu'r bore, prynhawn neu'r hwyr.

PROSIECT DIGIDOL DENMAN 2022

Gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu fideo byr (dim mwy na 2 funud o hyd) ar y thema:

Rheswm i dathlu

'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd.' (Salm 95:1)

Ym mlwyddyn dathliadau 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; pa resymau sydd gennym i dathlu fel Cristnogion yng Nghymru heddiw?

Anfoner eich fideos at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn 15 Mehefin 2022.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

Barn Annibynnol

PROFFWYDO! RHODD Y PENTECOST

Yn eu neges flynyddol i eglwysi'r byd ar gyfer Pentecost 2019 fe ddechreuodd llywyddion Cyngor Eglwysi'r Byd gyda'r geiriau hyn:



'Eleni cawn berthnasedd arbennig i'r byd cyfoes yn stori dilynwyd cynharaf Iesu, yn ddynion a merched, ar y diwrnod tyngedfennol hwnnw. Wedi'i ymweld gan Ysbryd Duw, tystiodd Pedr i fywyd, marwolaeth, ac atgyfodiad Iesu i'r tyfaoedd a gasglwyd yn Jerwsalem ar ddydd y Pentecost. Roedd tywalltiad yr Ysbryd yn ysgogi dilynwyd Iesu i broffwydo:

Yn y dyddiau hynny tywalltaf fy Ysbryd;
ac fe broffwydant (Actau 2:18)

Proffwydo yw dweud y gwir. Nid oes gan unrhyw reng na dosbarth, dim hil na chlwb, dim rhyw, na hyd yn oed unrhyw grefydd, fonopoli ar y gwir. Gall hyd yn oed pysgotwr gostyngedig godi i ddweud hynny. Ac ni all unrhyw anwiredd na chelwydd wrthsefyll y dystiolaeth gadarn i gariad hollgynhwysol, iachusol, trawsnewidiol Duw a ddatgelwyd i ni yn Iesu. Yn y diwedd, rhaid i bob awdurdod ildio i wirionedd ...'

Trasiediaŷ erchyll

Roedd hynny dair blynedd yn ôl, cyn y pandemig a newidiodd y cyd-destun

rhyngwladol a chenedlaethol yn llwyr. Erbyn hyn, mae'r hyn roedd llywyddion Cyngor Eglwysi'r Byd yn canolbwyntio arno yn fwy gwir nag erioed. Mae'r pandemig wedi datgelu fod rhwygiadau cymdeithasol ac economaidd dyfnion yn effeithio'n dyngedfennol ar iechyd a gwasanaethau iechyd gwledydd y byd yn ogystal â chymunedau lleol oddi fewn i wledydd. Mae anghyfiawnder iechyd yn bygwth miliynau. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae ymosodiad milwrol Rwsia ar Wcráin wedi dinistrio dinasoedd cyfan, wedi creu dros 10 miliwn o ffoaduriaid, wedi peri lladd a chlwyfo dros 15,000 o filwyr Rwsia a miloedd o filwyr a thrigolion Wcráin. Yn ogystal â bod hyn yn drasiedi erchyll ynddo'i hun, bu hyn yn achos bygythiad economaidd mawr i lawer gwlad gan fod Wcráin yn un o gynhyrchwyr gwenith a llafur pwysicaf y byd ac mae cau porthladdoedd oherwydd y rhyfel yn bygwth allforion ac yn bygwth diogelwch bywyd i'r rhai tlotaf yn ein byd. A thra bod hyn yn digwydd yn Wcráin, mae'r rhyfeloedd sy'n dinistrio gwledydd a phobloedd yn parhau yn Yemen a Swdan, yn Syria a Phalesteina, yn Myanmar a Sri Lanka.

Breuddwydio

Yn y sefyllfa hon, beth yw her 'broffwydol' y Pentecost i ni yn 1922? Yr un yw gofynion proffwydo ym mhob cyfnod. Yn un peth, mae'n alwad i bawb ohonom. Dyma rodd yr Ysbryd Glân i wŷr a merched ifanc ac i wŷr a merched hŷn: mae'n diuno'n dychymyg i 'weld gweledigaethau' a 'chael breuddwydion'. Man cychwyn proffwydo yng ngrwm yr Ysbryd felly yw breuddwydio fod byd gwahanol yn bosibl: does dim rhaid i bethau fod fel y maent, does dim rhaid i drais, rhyfel a chreulondeb ennill y dydd, does dim rhaid i anghyfiawnder, gorthrwm a

newyn ennill y dydd. Mae byd gwahanol yn bosibl. Mae'r proffwyd yn mynnu glynu at y weledigaeth o bosibiliadau Duw ar waith yn y byd yng ngrwm yr Ysbryd.

Gwirionedd

Elfen arall yw bod proffwydo yn mynnu fod gwirionedd yn greiddiol. Dros y blynyddoedd diwethaf, fe glywsom lawer am 'fake news' (sef, yng nghydestun America, y newyddion nad oedd y cyn-Arlywydd Trump am i bobl ei glywed na'i gredu). Mae'n amlwg, hefyd, fod trigolion cyffredin Rwsia yn cael dehongliad ffals o'r hyn sy'n digwydd yn Wcráin drwy'r Arlywydd Putin a'i beiriant newyddion didostur a chreulon. Drosodd a thro hefyd, yma yn ein gwlad ni, mae llywodraeth San Steffan wedi gwyrô'r gwirionedd ac wedi cyflwyno 'newyddion ffals'. (Rwy'n ysgrifennu'r geiriau hyn pan mae'r papurau newydd yn llawn lluniau o bartion yn Stryd Downing yr honnir na ddigwyddon nhw!) Ond mae neges y Cyngor yn glir: '... Nid oes gan unrhyw reng na dosbarth, dim hil na chlwb, dim rhyw, na hyd yn oed unrhyw grefydd (na phlaid wleidyddol), fonopoli ar y gwir. Ac ni all unrhyw anwiredd na chelwydd wrthsefyll y dystiolaeth gadarn i gariad hollgynhwysol, iachusol, trawsnewidiol Duw a ddatgelwyd i ni yn Iesu. Yn y diwedd, rhaid i bob awdurdod ildio i wirionedd ...' Dyma'r her broffwydol: dystiolaethu'n gadarn i gariad hollorchfygol, iachusol, trawsnewidiol Duw.

Perthyn

Gwirionedd arall a ddatgelwyd i Pedr, oedd hwnnw a ddaeth ato yn ei freuddwyd, breuddwyd Pentecostalaidd Joppa, sef, ein bod yn perthyn i'n gilydd yn ein holl amrywiaethau diwylliannol, rhywiol, ieithyddol, cenedlaethol, gwleidyddol a chrefyddol. Roedd darganfod hyn yn boenus ac anodd i Bedr. Gall fod yn boenus ac anodd i ni. Ond dyma yw gwirionedd proffwydol y Pentecost, dyma rodd yr Ysbryd Glân. Fe'n gelwir, felly, i fyw a chyhoeddi'r weledigaeth a'r freuddwyd hon sy'n herio patrymau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ein byd rhanedig a gorthrymus, grym yr ymerodraeth bwerus, ac yn herio grymoedd ffals pwerau creulon a didostur ein byd, megis yr Arlywydd Putin. A chreu byd cynhwysol. Anodd yw meddwl am gyfnod pan fu weddi a dyhead Moses yn fwy berthnasol: 'O na fyddai pobl Dduw i gyd yn broffwydi! Byddwn i wrth fy modd petai'r ARGWLWYDD yn rhoi ei Ysbryd arnyh nhw i gyd!' (Numeri 11.29). Dyma weddi i ni ei hoffrymu eto ar y Pentecost hwn.

Noel Davies

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)



Darlun gan Rebecca Brogan

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddwr yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

PORTHMADOG A CHRICIETH DROS Y PASG

Roedd hi'n dda cael cryn dipyn mwy o 'normalrwydd' dros Basg 2022 o gymharu â Phasg '21, ac yn sicr Pasg '20. Do, gwelwyd y tyrfaoedd yn heidio i drefi glan-môr Porthmadog a Chricieth dros y cyfnod braf a gafwyd, ac yn unol â'r arfer, roedd Port yn arbennig yn un dagfa draffig ... er cael ffordd osgoi.

O safbwynt y capeli Cymraeg beth bynnag, roedd hi'n braf gweld cyfeillion ar eu gwyliau yn ymuno efo ni; er mai ychydig oedd rhif yr ymwelwyr 'capelyddol', roedd hi'n dda eu gweld.



Y Groglith

Dowch inni ddechrau efo'r hyn ddigwyddodd ar Fore Gwener y Groglith. Yng Nghricieth cynhaliwyd oedfa Gymun yng Nghapel y Traeth – sy'n gyfuniad hapus o'r Presbyteriaid a'r Annibynwyr o dan ofal un gweinidog. Mae'n fraint i mi gael rhan yn arwain eglwys mor fyw – eglwys sy'n gyfuniad da o addoli Duw yn gyson ac o agor ffenestri ar y byd yn ei drallodion. Beth bynnag, i ddod yn ôl at oedfa'r Groglith. Roedd yno gynulliad sylweddol a chrëwyd awyrgylch hyfryd gan yr organydd Hugh Gwynne wrth yr organ ardderchog sydd yn y capel. Roeddwn innau wedyn yn gwibio o Gricieth i Borthmadog gan fod yno orymdaith o un pen y dref i'r llall gyda gwasanaethau dwyieithog ym mhob pen yn yr awyr agored cyn cynnal gwasanaeth yng Nghapel y Porth o dan ofal Christopher Prew, gweinidog y Presbyteriaid ym Mhorthmadog, a nifer arall yn cymryd rhan.

Y Pasg

Fore Sul y Pasg, bore'r Gorfoledd Mawr, cynhaliwyd oedfa yng Nghapel y Traeth, Cricieth gydag amryw o Salem, Porthmadog wedi ymuno. Roedd hon eto'n oedfa Gymun o dan ofal y gweinidog, a phleser oedd gweld unwaith eto gynulliad mor sylweddol. Soniais am Hugh Gwynne yn creu awyrgylch wrth yr organ fore Gwener y Groglith. Crëwyd yr un awyrgylch fore'r Pasg wrth i Bryn Jones arwain y mawl ar yr organ, a thrwy ei ddawn cawsom ein hysbrydoli gan neges cerddoriaeth Pietro Mascagni 'Llawenhewch cans yr Arglwydd gyfodwyd'.

Oedd, roedd hi'n dda cael ein hatgoffa o neges fawr y Pasg bod Iesu Grist wedi rhoi ei hun yn aberth drosom ar y groes, a hefyd wedi dod 'nôl yn fyw, 'Crist a gyfodwyd.' Ac onid lle i lawenhau sydd gennym o'r herwydd? Na ddigalonwn felly – ymlaen â ni!

Iwan Llewelyn

YSGOL HAF GWEINIDOGION YR ANNIBYNWYR

DYDD MERCHER, 15 MEHEFIN 2022
DROS ZOOM

10:00 - 10:15	Croeso a Defosiwn yng ngofal y Cadeirydd
10:15 - 11:00	Astudiaeth Feiblaidd - Y Parchg Gwilym Tudur
11:00 - 11:30	Egwyl
11:30 - 12:30	Karen Owen - 'Yr oedd pobl yn gwyllo...'
12:30 - 14:00	Egwyl i ginio
14:00 - 15:00	Karen Owen - 'Sawl Herod sydd?'
15:00 - 15:10	Egwyl
15:15	Cyfarfod Busnes ar Ffordd Ymlaen
19:30	Darlith Goffa Pennar Davies ac R Tudur Jones: E Wyn James, Caerdydd. 'Ieuan Gwynedd: Arwr Cenedl'
	Epilog yng ngofal Y Cadeirydd

DOLEN ZOOM: UNDEB@ANNIBYNWYR.CYMRU

CADERYDD: Y PARCHG BETI WYN JAMES
 YSGRIFENYDD: Y PARCHG EURON HUGHES
 TRYSORYDD: Y PARCHG EMYR GWYN EVANS

YSGOL HAF GWEINIDOGION YR ANNIBYNWYR

DARLITH GOFFA

(GYHOEDDUS)

R. TUDUR JONES A PENNAR DAVIES

IEUAN GWYNEDD: ARWR CENEDL

E. WYN JAMES
CAERDYDD

NOS FERCHER,
15 MEHEFIN 2022
AM 7.30
DROS ZOOM

Croeso i bawb

Dolen Zoom ar gael
drwy ebostio
undeb@annibynwyr.cymru



E. Wyn James, Cadeirydd
Darlith Goffa Ysgol Haf Gweinidogion